Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.8 Masnachu

Trosolwg

Yn gynyddol, mae cyrff trydydd sector yn cael eu hannog i arallgyfeirio eu ffrydiau incwm mewn amryw o wahanol ffyrdd i sicrhau eu bod yn fwy ariannol cynaliadwy yn y tymor hir. Pwrpas y daflen wybodaeth hon yw rhoi trosolwg byr ar fasnachu a'r materion y dylai cyrff trydydd sector eu hystyried cyn dechrau ar brosiect masnachu.

Beth yw masnachu?

Mae gan fasnachu sawl ffurf gan gynnwys:

- Codi tâl ar fuddiolwyr a grwpiau defnyddwyr am wasanaethau (e.e. cyrsiau hyfforddi, llogi ystafelloedd)
- Gwerthu nwyddau ar y farchnad agored (e.e. cyhoeddiadau, bwyd a diod)
- Gwerthu gwasanaethau ar y farchnad agored (e.e. gwaith ymgynghorol, llefydd gofal plant).

Yn aml iawn, cyfeirir at weithgaredd masnachol fel 'menter gymdeithasol'. Gweithgaredd yw menter gymdeithasol a gyflawnir gan gyrff trydydd sector i wneud elw.

Dulliau o fasnachu

Mae sawl dull o fasnachu:

- Masnachu ar sail cenhadaeth – gwerthu nwyddau neu wasanaethau 'craidd' sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nodau ac amcanion mudiad. Yn ogystal â datblygu cenhadaeth mudiad, gall y math hwn o fasnachu hefyd gynhyrchu elw gwerthfawr.
- Masnachu digyswllt – lle nad yw'n bosibl i fudiad gyfuno ei wasanaethau â chynhyrchu incwm, gallai ystyried masnachu digyswllt, sef gwerthu nwyddau a gwasanaethau sydd efallai heb fawr o gysylltiad â'r nodau craidd, ond sy'n creu elw y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu'r gwaith craidd.
- Adfer costau – elfen o fasnachu ar sail cenhadaeth lle codir tâl ar grwpiau defnyddwyr a buddiolwyr am gost sylfaenol gwasanaeth, nid i wneud elw ond i ddarparu gwasanaeth wedi sybsideiddio.
- Cwmnïau cymdeithasol – mae'r model hwn yn aml yn llwybr i fasnachu, ac yn codi o natur gweithgareddau mudiad. Nod cwmnïau cymdeithasol yw creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi i bobl sydd ar gyrion y farchnad lafur, neu ddarparu gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd uchel yn ychwanegol at rai'r wladwriaeth.
- Contractau – cynhyrchu incwm drwy ddarparu nwyddau neu wasanaethau ar sail cytundeb contract gyda phrynwr.

Manteision masnachu

Mae gan fasnachu nifer o fanteision:

- Nid oes cyfyngiad ar incwm a enillir – gellir ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion mudiad yn hytrach na'i wario yn ôl rheolau corff grantiau.
- Mwy o annibyniaeth – gall incwm heb gyfyngiad arno helpu i ddatblygu cenhadaeth y mudiad ymhellach.
- Mabwysiadu dulliau newydd – mae angen mabwysiadu dulliau busnes mwy trefnus i greu diwylliant entrepreneuraidd.
- Gloywi sgiliau – fel marchnata, negodi a rheolaeth ariannol.
- Cynnwys – mae masnachu yn aml yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu cynnwys yn y gwaith o drefnu gwasanaethau.

Ystyriaethau

Cyn dechrau ar ddatblygu syniad masnachu, dylech ystyried y pwyntiau isod i'ch helpu i benderfynu a ydyw masnachu'n opsiwn neu beidio:

- Yr ochr gyfreithiol – rhaid i'r dogfennau llywodraethu ganiatáu gweithgareddau masnachol. Yn ogystal â materion cyfreithiol, rhaid i elusennau cofrestredig ystyried materion treth. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol ar y materion hyn bob tro.
- Diwylliant y mudiad – rhaid i fudiadau fod yn barod i ystyried ffyrdd newydd o godi arian a mabwysiadu dulliau entrepreneuraidd – gallai bod yn gyndyn i wneud hyn achosi problemau.
- Cynllunio – Rhaid cynllunio'n drylwyr i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i'r mudiad ac i ganfod unrhyw risgiau posibl. Bydd cynllunio effeithiol yn cyfrannu at lwyddiant a datblygiad parhaus unrhyw fasnachu
- Cyllid – ni ellir osgoi costau cychwyn yn aml wrth gyflawni gweithgaredd newydd. Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cyfrifo'r costau cychwyn yn gywir ar y dechrau i osgoi unrhyw sioc annisgwyl.
- Anghenion hyfforddi – Bydd cyflawni archwiliad sgiliau a dadansoddi anghenion hyfforddi yn dangos pa sgiliau ychwanegol sydd efallai eu hangen arnoch i sicrhau llwyddiant menter newydd.
- Prisio v cost – dylid hefyd sicrhau eich bod yn sylweddoli gwir gost unrhyw brosiect ac yn adennill eich costau i gyd.

Y camau cyntaf i fasnachu

Nid yw datblygu syniad i gynhyrchu incwm o hyd mor hawdd ag y mae'n ymddangos. I helpu'r broses hon, efallai y bydd y cwestiynau isod yn ddefnyddiol i hwyluso trafodaeth grŵp er mwyn hel syniadau a chadarnhau meddyliau:

- Pam ydych eisiau masnachu? Meddyliwch a fyddwch yn masnachu i ddatblygu cenhadaeth eich mudiad ymhellach, neu ddim ond i wneud arian? Bydd hyn yn dylanwadu ar eich gweithgareddau.
- Beth ydych yn ei werthu ar hyn o bryd? Efallai fod hyn ar raddfa fach ond ystyriwch sut ydych yn cynhyrchu incwm ar y funud. A allwch ddatblygu hyn ymhellach?
- Beth allwch chi ei werthu? Nid yw eitemau gwerthadwy o hyd yn weladwy. Meddyliwch ba sgiliau a wybodaeth sydd yn eich mudiad a pha wasanaethau y gellir eu darparu'n rhad ac am ddim.

- Beth ydych eisiau ei werthu? Nid yw hyd yn bosibl datblygu pob syniad. Rhaid ichi ystyried yn fanwl iawn beth allai eich mudiad ei ddarparu.
- Gyda phwy y gallwch weithio? Gallai creu perthynas gyda phartneriaid posibl eich helpu i ddatblygu gweithgareddau mwy.
- Pwy fydd eich cwsmeriaid? Mae o hyd yn syniad da gwybod beth yw anghenion eich cwsmeriaid cyn sefydlu gwasanaeth neu gynnyrch newydd.
- Pwy fydd eich cystadleuaeth? Os yw eich cynnyrch neu wasanaeth eisoes ar gael yn yr ardal leol, meddyliwch sut y gallwch wella'r ddarpariaeth.
- Faint fyddwch yn ei godi? Dylai unrhyw weithgaredd masnachu dalu amdano ei hun ac, yn ddelfrydol, cynhyrchu elw i gefnogi eich mudiad. Dylech sicrhau nad oes angen i'ch mudiad sybsideiddio unrhyw weithgaredd masnachu.
- Sut y byddwch yn gwerthu? Mae buddsoddi mewn marchnata yn hanfodol i sicrhau llwyddiant unrhyw fasnachu. Rhaid ichi sicrhau y bydd gymaint o bobl â phosibl yn gwybod amdano.

Gwybodaeth bellach

Y Comisiwn Elusennau

Y corff rheoleiddio a chofrestru ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyhoeddiad CC35 yn cynnwys manylion am yr ochr gyfreithiol o fasnachu i elusennau.
Ffôn: 0845 3000 218
www.charitycommission.gov.uk

Cyllid & Thollau EM

Pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth am dreth a TAW i elusennau, ynghyd â gwybodaeth am ad-daliadau treth ar roddion elusennol.
Ffôn: 08453 02 02 03
www.hmrc.gov.uk/charities

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:15/07/2008

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk